

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam - 10 Medi 2020

Pwyntiau gweithredu

	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam 10 Medi 2020			
	Yn bresennol:			
	Lyndsey Rawlinson, cadeirydd (CNC) John Gallanders (AVOW) Sue Price (Coleg Cambria) Rob Smith (BIPBC) Nina Ruddle (Glyndŵr) Mark Pierce (HGC) Ian Bancroft (CBSW) Karen Evans (CBSW) Sioned Rees (LIC) Cynghorydd Mark Pritchard (CBSW) Cynghorydd Hugh Jones, dirprwy gadeirydd (CBSW) Michael Cantwell (CBSW) Sarah Grimley (CBSW)			
	Ymddiheuriadau:			
	Amanda Aldridge (DWP) Rebecca Masters (ICC)			

		Pwy	Erbyn	Statws
	Croeso			
	Croesawodd LR y partneriaid i'r cyfarfod, a diolch i'r partneriaid am eu cefnogaeth tra bu yn gadeirydd dros y tair blynedd ddiwethaf. Diolchodd y pwyllgor i Lyndsey am ei harweinyddiaeth a'i gwaith caled i ddatblygu BGC Wrecsam yn bartneriaeth gref a chadarnhaol.			
	Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud, yna mae angen iddo gael ei gadarnhau gan aelodau craidd y BGC nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod (Gwasanaeth Tân ac Achub, CNC, CBSW a BIPBC).			
1	Y Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r penderfyniadau a wnaed yn eu habsenoldeb.	SS	Diwedd Medi	
	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd			
	Etholwyd Sue Price, pennaeth Coleg Cambria fel cadeirydd y BGC ac fe ail-etholwyd y Cynghorydd Hugh Jones, CBSW fel dirprwy gadeirydd. Cafwyd pleidlais unfrydol yn y cyfarfod			
	Croesawodd y Pwyllgor Sue, a diolch i Hugh am ei gyfraniad fel dirprwy gadeirydd ac am barhau i gynnig ei sgiliau partneriaeth i'r BGC.			

		Pwy	Erbyn	Statws
	Cynllun adfer gwydnwch cymunedol			
	Rhoddodd IB y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am gyddestun rhanbarthol y gwaith gwydnwch cymunedol, sy'n adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyng. Mark Pritchard.			
	<p>Cyfarfu byrddau BGC Wrecsam a Sir y Fflint ym mis Mehefin a Gorffennaf, wedi'i hwyluso gan Ken Perry o Do Well, a chytuno i ganolbwyntio ar bedair thema.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Plant a phobl ifanc, yn enwedig ar gyfnodau pontio allweddol • Yr amgylchedd / carbon • Tlodi ac anghydraddoldeb • Iechyd meddwl <p>Dros yr haf, mae'r tîm rheoli rhaglen wedi bod yn gweithio ar y strwythur i weithredu hyn, gan roi dyddiadau yn y dyddiadur, rhannu syniadau a nodi cysylltiadau newydd.</p> <p>Mae arweinydd a chyd-arweinydd ar gyfer pob thema wedi'u cytuno, ac maent wedi dechrau ystyried beth fydd eu thema yn ei chynnwys a phwy allai fod ar eu tîm, i weithredu hyn. Mae'r arweinwyr wedi cyfarfod unwaith i drafod pa fater sy'n trawsdorri fyddai orau i'w integreiddio ac alinio'r bedair thema, a byddant yn cyfarfod eto ar 8 Hydref i gytuno ar ffordd ymlaen.</p> <p>Mae'r tîm rheoli rhaglen wedi dechrau cyfarfod yn wythnosol, bydd yr arweinwyr yn cwrdd fel tîm yn fisol a bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r BGCau ar y cyd bob chwarter.</p>			
	<p>Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu momentwm o'r cydgyfarfodydd ym mis Mehefin a Gorffennaf, nododd IB a MP y byddai'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol angen drafft cyntaf y cynllun adfer ar y cyd erbyn diwedd Medi. Er bod y cynllun yn un ar y cyd ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint, bydd rhai gamau gweithredu yn cael eu darparu ar y cyd, rhai yn lleol a rhywfaint o waith presennol yn cael ei gario ymlaen o grwpiau rhaglen presennol y BGCau.</p> <p>Bydd pob thema angen 2 neu 3 o gamau gweithredu, terfynau amser cychwynnol, canlyniadau a ddisgwyllir ac adnoddau sydd eu hangen.</p> <p>Bydd angen i'r camau gweithredu drafft fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r her ac integreiddio wrth i fwy o dystiolaeth ddod i'r amlwg.</p>			

		Pwy	Erbyn	Statws
	Teimlwyd ei bod yn hanfodol bod sefydliadau'r BGC yn nodi'n glir beth fyddant yn ei gyflawni fel partneriaeth, ac y dangosir bod y BGC yn cyflawni a hyrwyddo cynnydd.			
2	Y Tîm rheoli rhaglen i siarad gyda'r arweinwyr i sicrhau eu bod yn cynhyrchu cynllun gweithredu drafft i'w ddsbarthu, her gan gyfarfod yr arweinwyr a'r BARh.	MC	10/9/20	
	<p>Cytunwyd y byddai BGC Wrecsam yn parhau i gyfarfod er mwyn cael corff sofran i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gwaith adfer ar y cyd gyda BGC Sir y Fflint. Bydd y cyfarfodydd chwarterol yn fyrrach nag o'r blaen, yn parhau i gael eu cynnal ar-lein a byddant yn bwysig er mwyn sicrhau bod y partneriaethau a pherthnasau effeithiol yr ydym wedi'u datblygu yn Wrecsam dros y ddwy flynedd ddiwethaf o dan arweiniad Lyndsey yn cael eu cynnal a'u datblygu, fel ein bod yn barod yn lleol pryd bynnag y byddwn yn gallu dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.</p> <p>Nododd SR y bydd yn bwysig nodi'r cydbwysedd rhwng gwaith adfer a gwaith gweddilliol, terfynau amser a chanlyniadau fel bod sefydliadau'r BGC yn gweithio'n effeithiol a dyrannu adnoddau.</p>			
3	Trefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd chwarterol BGC Wrecsam i ddilyn y dyddiadau a osodwyd ar gyfer y BGC ar y cyd.	MC/SP	Hydref 20	
	Mae gan BGC Wrecsam lawlyfr a chylch gorchwyl, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Bydd angen ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau i'r aelodaeth ynghyd â'r gwaith adfer ar y cyd.			
4	Adolygu'r llawlyfr a'r Cylch Gorchwyl a'u dosbarthu fel y gall y partneriaid gyflwyno sylwadau a'i lofnodi yng nghyfarfod nesaf BGC Wrecsam.	SP/MC	Hydref 20	
	Diolchodd SP i arweinwyr y Byrddau Rhaglen am eu gwaith dros y dair blynedd ddiwethaf, a gobeithio y bydd cydweithwyr sy'n rhan o'r gwaith i ddarparu'r cynlluniau hyn yn gallu gweithio ar y cynllun adfer ar y cyd.			
5	Adolygu cynlluniau gweithredu'r bwrdd rhaglen, i sicrhau bod unrhyw waith gweddilliol yn cael ei gyflawni, a nodi gwaith yn y dyfodol, fel y rownd nesaf o asesiadau lles.	SP / MC / SG	Hydref 20	
	Cydnabuwyd nad yw rhai o'r sefydliadau yn cefnogi'r defnydd o Zoom o'r gweithle. Gobeithio, bydd partneriaid yn gallu canfod datrysiad fel ffonio, neu ddefnyddio gliniadur personol, o leiaf yn fyr dymor.			

		Pwy	Erbyn	Statws
6	Anfon e-bost at Simon Smith i ofyn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i enwebu rhywun i fynychu cyfarfodydd BGC Wrecsam yn y dyfodol.	MC	11/9	C
	Adroddiad Blynyddol			
	Eglurodd Sarah Grimley bod yr adroddiad blynyddol ychydig yn ysgafnach eleni, ac wedi'i gynhyrchu i sicrhau bod y BGC yn diwallu ei ofyniad statudol i gynhyrchu adroddiad blynyddol. Mae'n ymdrin â'r cyfnod o 19/20 gan arwain at y gwaith adfer ar y cyd, felly bydd y flwyddyn nesaf yn gallu canolbwyntio ar y canlyniadau o'r gwaith hwn. Awgrymodd HJ y byddai'n syniad da rhestru'r sefydliadau partner yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf. Mae'r adroddiad wedi'i anfon at FGC, SAC a LIC.			
7	Cytunodd y partneriaid y byddant yn rhannu'r adroddiad blynyddol gyda'u Byrddau a'i hyrwyddo ar draws eu sefydliadau.	Pawb	Hyd	
8	Bydd CBSW yn cyflwyno'r adroddiad i Fwrdd Gweithredol y Cyngor fel rhan o'r diweddariad cynllunio adferiad.	IB	Hyd	
	Fel y nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cadeirydd y BGC yn cyfarfod gyda phanel craffu CBSW o leiaf unwaith y flwyddyn.			
9	Trefnu cyfarfod rhwng Sue Price a phwyllgor craffu CBSW	MC		
	Cau			
	Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod. Caeodd SP y cyfarfod.			
	Camau Gweithredu			
1	Y Gwasanaeth Tân ac Achub i gadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r penderfyniadau a wnaed yn eu habsenoldeb.	SS	Diwedd Medi	
2	Y Tîm rheoli rhaglen i siarad gyda'r arweinwyr i sicrhau eu bod yn cynhyrchu cynllun gweithredu drafft i'w ddosbarthu, her gan gyfarfod yr arweinwyr a'r BARh. Bydd pob thema angen 2 neu 3 o gamau gweithredu, terfynau amser cychwynnol, canlyniadau a ddisgwylir ac adnoddau sydd eu hangen.	MC	10/9/20	C
3	Trefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd chwarterol BGC Wrecsam i ddilyn y dyddiadau a osodwyd ar gyfer y BGC ar y cyd.	MC/SP	Hydref 20	

		Pwy	Erbyn	Statws
4	Adolygu'r llawlyfr a'r Cylch Gorchwyl a'u dosbarthu fel y gall y partneriaid gyflwyno sylwadau a'i lofnodi yng nghyfarfod nesaf BGC Wrecsam.	SP/MC	Hydref 20	
5	Adolygu cynlluniau gweithredu'r bwrdd rhaglen, i sicrhau bod unrhyw waith gweddilliol yn cael ei gyflawni, a nodi gwaith yn y dyfodol, fel y rownd nesaf o asesiadau lles.	SP / MC / SG	Hydref 20	
6	Anfon e-bost at Simon Smith i ofyn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i enwebu rhywun i fynychu cyfarfodydd BGC Wrecsam yn y dyfodol.	MC	11/9	C
7	Cytunodd y partneriaid y byddant yn rhannu'r adroddiad blynyddol gyda'u Byrddau a'i hyrwyddo ar draws eu sefydliadau.	Pawb	Hyd	
8	Bydd CBSW yn cyflwyno'r adroddiad i Fwrdd Gweithredol y Cyngor fel rhan o'r diweddariad cynllunio adferiad.	IB	Hyd	
9	Trefnu cyfarfod rhwng Sue Price a phwyllgor craffu CBSW	MC	Hyd	